**BŴM!** is a pathway for four early-career artists (or four early-career ensembles/groups) in making outdoor music and sound that responds to themes of climate crisis.

It's a partnership with Oxford Contemporary Music and Articulture and will support artists to develop practical and creative skills and to learn about embedding climate responsive work into their practice. This is all made possible by the incredibly generous support of Jerwood Arts, Arts Council of Wales and PRS Foundation.

Four selected music-creators will each receive £1500 for their participation, alongside direct creative-producer support from OCM, Articulture and Tŷ Cerdd team members over a 9-month period. A series of gatherings across the period will bring the cohort together to share learning, ideas and work-in-progress and to hear from experts in the field.

**All participants must be free for the following dates:**

- Thursday 7 September, morning – kick-off session (online)
- Friday 29 September – gathering #1 (Newtown, Powys)
- Tuesday 23 January, morning – gathering #2 (online)
- Saturday 9 March – gathering #3 (North Wales)
- Wednesday 15 May, morning – gathering #4 (online)
- Wednesday 3 OR 10 July – gathering #5 (101 Outdoor Arts, Newbury)

## Further information

- Applicants from any musical genre are welcomed.

- This is not a commissioning opportunity, rather a safe and creative space for artists to develop practice and skills. Applications can be purely focused on skill development, although we also welcome proposals that develop a specific creative idea as part of the learning.

- Two participating artists/groups will be selected at the end of the pathway for funded R&D in the following year.

- **Early-career** Generally speaking this means that eligible applicants will have had their work performed, produced, recorded or broadcast in a professional context on at least one occasion. NB This pathway can't support anyone who's currently studying for an undergraduate or post-graduate qualification (including practice-led PhDs).

- **Welsh music-creators** If you're creating original music and you've been based in Wales for at least a year, you're eligible. Applications are welcomed from music-creators from across Wales and expenses will be covered for artists' travel.

- **Diversity** We are keen to receive applications from individuals who are under-represented / have faced neglect or exclusion from the arts community; we particularly welcome applications from disabled people, Black, Asian and ethnically diverse people, LGBTQ+ people, and people from lower socio-economic backgrounds.

- **Welsh language** While the programme will be run primarily in English, we strongly encourage Welsh-speaking artists to apply, and will ensure there is time and space for bilingual discussion and connection with Welsh-language artists through the process.

## If you're interested, but you have some questions...

...we can chat with you directly by phone or Zoom. **Email** us to arrange a call

## To apply...

...upload the following information to our **portal**

1. **Personal details:** your name, email address, mobile number, address, confirmation that you are over 18
2. **Tell us about your practice:** Tell us what you love to do as a music-creator and what you've been most proud of. Please provide information to demonstrate that you're an early-career professional. *(Max 200 words)*
3. **Why would you like to be part of this pathway?** Do you have a creative idea you would like to develop? Tell us if there any specific skills or techniques you would like to develop. Why is making Climate Responsive work important to you? *(Max 500 words)*
4. **How do you envisage spending the £1500 bursary during the pathway?** This could be, eg, residencies, research trips, training, paying for your own time to experiment, hardware/software, hire of workshop/rehearsal space, materials, work-in-progress presentations, etc. *(Max 100 words)*
5. **Do you have any access requirements?** Tell us if there is any support or any conditions you need to enable you to participate in the pathway.

6. **Examples of your work:** please attach 2 links or attachments to your music (NB: please send links rather than sound or video files; if you need help creating links, let us know.)

**Video and audio applications are also welcomed.** Record your answers to questions 2, 3, 4 & 5 above (up to 5 minutes duration), and upload a link to your recording, adding the information requested in questions 1 & 6 to the upload form. If you need help creating a link to your video, email us for help.

## Timeline & process

**Deadline for applications: 12:00 midday on Thursday 6 July.**

The panel will consist of Annie Grundy of Articulture, Victora Larkin of OCM, artist Mark Anderson, and Deborah Keyser, Director of Tŷ Cerdd and we'll let you know the outcome w/b **Monday 17 July.**

*This pathway is supported by the Jerwood Developing Artists Fund*

Mae **BŴM!** yn llwybr ar gyfer pedwar artist ar ddechrau eu gyrfa (neu bedwar ensemble/grŵp ar ddechrau eu gyrfa) iddynt greu cerddoriaeth a sain awyr agored sy'n ymateb i themâu'r argyfwng hinsawdd.

Mae'n bartneriaeth gydag Oxford Contemporary Music ac Articulture a bydd yn cefnogi artistiaid i ddatblygu sgiliau ymarferol a chreadigol ac i ddysgu am ymgorffori gwaith sy'n ymateb i'r hinsawdd wrth weithio. Mae hyn oll yn bosibl oherwydd cefnogaeth hynod hael Jerwood Arts, Cyngor Celfyddydau Cymru a Sefydliad PRS.

Bydd 4 o grewyr cerddoriaeth dethol yn derbyn £1500 yr un am gymryd rhan, ynghyd â chefnogaeth uniongyrchol gan gynhyrchwyr creadigol ac aelodau tîm OCM, Articulture a Tŷ Cerdd dros gyfnod o 9 mis. Bydd cyfres o gyfarfodydd yn ystod y cyfnod yn dod â'r garfan ynghyd i rannu dysg, syniadau a gwaith sydd ar y gweill ac i glywed gan arbenigwyr yn y maes.

**Rhaid i bawb sy'n cymryd rhan fod yn rhydd ar y dyddiadau canlynol:**

- dydd Iau 7 Medi, bore – sesiwn i ddechrau pethau (ar-lein)
- dydd Gwener 29 Medi – cwrdd #1 (y Dre Newydd, Powys)
- dydd Mawrth 23 Ionawr, bore – cwrdd #2 (ar-lein)
- dydd Sadwrn 9 Mawrth – cwrdd #3 (yn y Gogledd)
- dydd Mercher 15 Mai, bore – cwrdd #4 (ar-lein)

- dydd Mercher 3 NEU 10 Orffennaf (i'w gadarnhau) – cwrdd #5 (101 Outdoor Arts, Newbury)

## Gwybodaeth bellach

- Rydym yn croesawu ymgeiswyr o unrhyw genre cerddorol.

- Nid cyfle comisiynu yw hwn, ond yn hytrach yn ofod diogel a chreadigol i artistiaid ddatblygu eu sgiliau a'u hymarfer. Gall ceisiadau ganolbwyntio'n llwyr ar ddatblygu sgiliau, er ein bod hefyd yn croesawu cynigion sy'n datblygu syniad greadigol benodol fel rhan o'r dysgu.

- Bydd dau artist/grŵp o'r chwech sy'n cymryd rhan yn cael eu dewis ar ddiwedd y llwybr ar gyfer Ymchwil a Datblygu wedi'u hariannu yn y flwyddyn ganlynol.

- **Ar ddechrau eu gyrfa** Yn gyffredinol, mae hyn yn golygu y bydd gwaith ymgeiswyr cymwys wedi cael ei berfformio, ei gynhyrchu, ei recordio neu ei ddarlledu mewn cyd-destun proffesiynol o leiaf unwaith. Sylwer: ni all y llwybr hwn gefnogi unrhyw un sy'n astudio ar hyn o bryd ar gyfer cymhwyster israddedig neu ôl-raddedig (gan gynnwys doethuriaethau a arweinir gan ymarfer).

- **Crewyr cerddoriaeth o Gymru** Os ydych chi'n creu cerddoriaeth wreiddiol ac rydych chi wedi byw yng Nghymru ers o leiaf blwyddyn, rydych chi'n gymwys. Rydym yn croesawu ceisiadau gan grewyr cerddoriaeth o bob cwr o Gymru a thelir am gostau teithio'r artistiaid.

- **Amrywiaeth** Rydym yn awyddus i dderbyn ceisiadau gan unigolion sy'n cael eu tangynrychioli / sydd wedi wynebu esgeulustod neu allgáu o'r gymuned gelfyddydol; rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bobl anabl, pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig amrywiol, pobl LGBTQ+, a phobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is.

- **y Gymraeg** Er y bydd y gweithdai wedi'u cynnal drwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf, rydym yn annog yn gryf i artistiaid Cymraeg eu hiaith ymgeisio, a byddwn yn sicrhau bod amser a lle ar gyfer trafodaeth ddwyieithog a chysylltiad gydag artistiaid Cymraeg yn ystod y broses.

## Os oes gennych ddiddordeb, ond bod gennych ambell gwestiwn...

...gallwn gael sgwrs dros y ffôn neu Zoom. Anfonwch **e-bost** i drefnu galwad.

## I ymgeisio...

...lanlwythwch yr wybodaeth ganlynol i'n **porth**

1. **Manylion personol:** eich enw, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn symudol, cyfeiriad, cadarnhad eich bod dros 18 oed.
2. **Dywedwch wrthym am eich gwaith:** Dywedwch wrthym am eich gwaith yn creu cerddoriaeth a beth rydych chi wedi bod fwyaf balch ohono. Rhowch wybodaeth sy'n dangos eich bod yn broffesiynol ar ddechrau eich gyrfa. (*Dim mwy na 200 gair*)
3. **Pam hoffech chi fod yn rhan o'r llwybr hwn?** Oes gennych chi syniad creadigol yr hoffech ei ddatblygu? Dywedwch wrthym os oes gennych unrhyw sgiliau neu dechnegau penodol yr hoffech eu datblygu. Pam mae gwneud gwaith sy'n Ymateb i'r Hinsawdd yn bwysig i chi? (dim mwy na 250 gair)

4. **Sut ydych chi'n rhagweld gwario'r fwrsariaeth £1500 yn ystod y llwybr?** Gallai hyn fod, e.e., preswyliadau, teithiau ymchwil, hyfforddiant, talu am eich amser eich hun i arbrofi, caledwedd/meddalwedd, llogi gofod gweithdy/ymarfer, deunyddiau, cyflwyniadau ar waith sydd ar y gweill, ac ati. (*Dim mwy na 100 gair*)
5. **A oes gennych unrhyw ofynion penodol o ran mynediad?** Dywedwch wrthym a oes unrhyw gymorth neu unrhyw amodau sydd eu hangen arnoch i'ch galluogi i gymryd rhan yn y llwybr.
6. **Enghreifftiau o'ch gwaith:** rhowch 2 ddolen neu atodiadau i'ch cerddoriaeth (noder: anfonwch ddolenni yn hytrach na ffeiliau sain neu fideo; os oes angen help arnoch i greu dolenni, rhowch wybod i ni.)

**Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau ar fideo neu sain.** Recordiwch eich atebion i gwestiynau 2, 3, 4 a 5 (i bara hyd at 5 munud), a lanlwythwch ddolen i'ch recordiad. Atebwch gwestiynau 1 a 6 ar y ffurflen a lanlwytho honno hefyd. Os oes angen help arnoch i greu dolen i'ch fideo, e-bostiwch ni i gael cymorth.

## Yr amserlen a'r broses

**Dyddiad cau i dderbyn ceisiadau: 12:00 ganol dydd ar ddydd Iau 6 Gorffennaf.**

Bydd y panel yn cynnwys Annie Grundy o Articulture, Victora Larkin o OCM, yr artist Mark Anderson, a Deborah Keyser, Cyfarwyddwr Tŷ Cerdd, a byddwn yn rhoi gwybod am y canlyniad i chi yn ystod yr wythnos sy'n dechrau **ddydd Llun 17 Gorffennaf**.

> Peblo Pengwin

> Stiwdio Cyfansoddwyr

> CoDI 2023/24

*Cefnogir y llwybr hwn gan Jerwood Developing Artists Fund*